



Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service



Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mid and West Wales
Fire and Rescue Service



Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru
South Wales
Fire and Rescue Service



Canllaw Cymru gyfan ar gyfer Llety Gwyliau Hunanddarpar



YN EICH CEFNOGI CHI I AMDDIFFYN EICH BUSNES

Ar gyfer pwy y mae'r canllaw?

Mae'r canllaw hwn yn rhoi gwybodaeth ac arweiniad i bobl sy'n gyfrifol am lety gwyliau hunanddarpar, er mwyn eu helpu i leihau'r risg o dân ac i gydymffurfio â Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 ('Gorchymyn Diogelwch Tân').



MAE METHU Â CHADW POBL YN DDIOGEL RHAG TÂN YN GALLU ARWAIN AT GAMAU GORFODI, ERLYNIADAU, DIRWYON NEU HYN YN OED AT GARCHAR.

Y GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB YNG NGHYMRU SY'N GYFRIFOL AM ORFODI'R 'GORCHYMYN DIOGELWCH TÂN'.

Dylid defnyddio'r canllaw hwn ar gyfer rhai mathau o lety yn unig, sef llety bach, sengl, o fath domestig, ar y llawr gwaelod a/neu'r llawr cyntaf, fel tai, bythynnod, cabanau neu fflatiau sengl (mewn bloc o fflatiau neu dŷ sydd wedi cael ei droi'n fflatiau); a mathau llai o lety awyr agored, fel carafanau, podiau gweryslla a glampio, cytiau lloches, bythynnod ciper, cytiau bugail, pebyll, tai coeden ac yurtiau.

Os ydych yn ystyried addasu eiddo presennol neu wneud newidiadau i eiddo presennol er mwyn creu llety gwyliau hunanddarpar, mae'n bosibl fod angen i chi gysylltu â'r adran gynllunio a rheoli adeiladu yn eich awdurdod lleol.

Gallwch chi gael mwy o gyngor ar hyn drwy:

<https://llyw.cymru/adeiladu-a-chynllunio>



Beth sydd raid ei wneud?



Rhaid i chi wneud asesiad risg tân i weld pa fesurau diogelwch tân sydd eu hangen er mwyn cadw pobl yn ddiogel rhag tân.



Rhaid i chi weithredu ar sail canlyniadau eich asesiad risg tân, ac os bydd angen, rhaid i chi wella eich mesurau diogelwch tân.



Rhaid i chi gadw golwg ar y risgiau a'ch mesurau diogelwch tân.



Dylech chi sicrhau bod offer (e.e. systemau larwm tân, offer nwy, peiriannau trydan, goleuadau argyfwng) yn cael ei gwasanaethu'n rheolaidd ac yn cael eu profi/archwilio yn rheolaidd. Rhaid cadw cofnod o'r gwaith profi a chynnal a chadw.



Asesiad Risg Tân

Gallwch chi wneud asesiad risg tân eich hun. Mewn nifer o achosion, yn enwedig mewn safleoedd llai o faint, gallai hyn fod yn gymharol syml. Bydd angen i chi ganfod, ac asesu'n drylwyr, y peryglon a'r risgiau sy'n bodoli ar eich safle. Yna, bydd rhaid gosod mesurau i leihau'r risgiau hyn ac i gadw pobl yn ddiogel.

Bydd angen i chi ystyried y bobl sy'n debygol o fod yn defnyddio eich safle, gan gynnwys pobl hŷn, plant ifanc iawn a phobl anabl, a sut byddent yn dianc petai rhywbeth yn digwydd.



Caiff asesiad risg tân ei gynnal mewn pum cam:

Cam 1 - Canfod y Risg.

Cam 2 - Canfod pwy sydd â Risg.

Cam 3 - Gwerthuso, dileu, lleihau ac amddiffyn rhag risg.

Cam 4 - Cofnodi, cynllunio, hysbysu, gorchymyn a hyfforddi.

Cam 5 - Adolygu.

Er mwyn rhoi rhagor o gymorth i chi lenwi asesiad risg tân, mae'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru wedi datblygu templed a nodiadau cyfarwyddyd sydd ar gael i'w lawrlwytho am ddim oddi ar wefannau'r Gwasanaethau Tân ac Achub.

Efallai y byddwch chi eisiau hurio asesydd neu ymgynghorydd risg tân i'ch helpu. Mae canllawiau ar gael gan Gyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion Tân ar gyfer dewis Asesydd Risg Tân cymwys:


<https://www.nationalfirechiefs.org.uk>





Sut i leihau'r risg o dân

Rhaid i dri pheth allweddol fod yn bresennol i dân ddigwydd, sef:



GWRES ffynhonnell cynnau tân, fel fflam o fatsien neu sbarc o wifrau â nam arnynt.



TANWYDD rhywbeth sy'n gallu llosgi, fel dodrefn pren, papur ayyb.



OCSIGEN mae hwn yn yr aer o'n cwmpas.

Mae'n ddefnyddiol cofio hyn wrth gynnal asesiad risg tân.



Dyma enghreifftiau o danwydd a ffynonellau cynnau tân a allai fod yn bresennol mewn llety gwyliau hunanddarpar.

Risgiau cynnau tân:

- Tanau agored / stofiau llosgi coed.
- Boeleri.
- Canhwyllau.
- Hen osodiadau trydanol.
- Defnyddio gwresogyddion cludadwy.
- Offer coginio, ac arferion coginio.
- Peiriannau trydanol cludadwy (sy'n cael eu darparu ac sy'n cyrraedd gyda'r gwesteion).
- Gorlwytho socedi.
- Barbeciw.

Deunyddiau llosgadwy posib/ ffynonellau tanwydd:

- Dodrefn meddal.
- Dodrefn caled.
- Dillad gwelyau a llenni.
- Deunyddiau glanhau domestig.
- Dillad.
- Lle storio petrol/ olew/ diesel ar gyfer peiriannau torri gwair a pheiriannau gardd eraill.
- Silindrau nwy a thanciau storio olew/nwy ar gyfer coginio a/neu systemau gwres canolog.
- Coed tân.
- Carpedi.
- Sbwriel domestig.

Sylwch: Mewn nifer o achosion, bydd deunyddiau llosgadwy / ffynonellau tanwydd yn debyg i rai mewn cartref domestig.



Diogelwch trydanol a lleihau risg tân:

Gwnewch yn siŵr fod gennych drefniadau addas ar gyfer cofnodi archwiliadau a phroffion ar beiriannau trydanol cludadwy er mwyn lleihau'r risg y bydd tân yn cynnau (proffion PAT).



DYLID ARCHWILIO PEIRIANNAU TRYDANOL CYN I WESTEION NEWYDD GYRRAEDD.

Darllenwch y ddogfen gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch: "Maintaining portable electrical equipment in low risk environments"

i gael arweiniad pellach:
www.hse.gov.uk



- Gwnewch yn siŵr fod gosodiad trydanol yr adeilad yn dilyn rhaglen addas o broffion ac archwiliadau gan berson cymwys er mwyn lleihau'r risg o dân ar y safle.
- Gwnewch yn siŵr fod tystiolaeth addas yn cael ei chadw ar gyfer eich cofnodion.

www.hse.gov.uk/pubns/priced/hsg85.pdf



Cadw tŷ a lleihau risg tân:

- Gwnewch yn siŵr fod y preswylwyr yn cael gwybodaeth glir am eich polisi ysmegu.
- Os oes gennych gyfleusterau fel stof llosgi coed, tanau agored neu farbeciw, rhowch gyfarwyddiadau clir ar sut i'w defnyddio'n ddiogel.
- Os oes gennych stof llosgi coed a thanau agored ystyriwch gyfyngu ar faint o foncyffion sydd ar gael.



SYLWCH: DYLID DARPARU LARYMAU CARBON MONOCSID YMHOB YSTAFELL LLE MAE OFFER NWY, OLEW NEU DANWYDD SOLET, GYDA CHYFARWYDDIADAU CLIR AR SUT I'W DEFNYDDIO.

- Rhowch wybodaeth i'r preswylwyr ynglŷn â chael gwared ar sbwriel yn rheolaidd, gan gynnwys cyfeirio at y gwahanol fathau o finiau sydd gennych (gwastraff bwyd, ailgylchu ayyb). Pan fo hynny'n berthnasol, ystyriwch yn ofalus ble i osod biniau allanol er mwyn lleihau'r risg y bydd tân yn cynnau a'r risg y bydd tân yn lledaenu i'r adeilad. Gallai hyn gynnwys defnyddio biniau metal, lle storio dan glo neu roi biniau'n sownd â chadwyni draw oddi wrth y llwybrau dianc.
- Os bydd y preswylwyr yn cael yr allweddi i'r safle drwy sêff allweddi, ystyriwch newid y cod yn rheolaidd fel nad oes neb yn cael mynediad heb ganiatâd. Ceisiwch beidio â gadael allweddi mewn lle sydd ddim yn ddiogel, fel o dan y mat neu o dan bot planhigyn.

EWCH DRAW I WIRIO PETHAU YN Y SAFLE YN YR ADEGAU PRYD DOES NEB YNO.



Dodrefn:

- Dylai dodrefn a deunyddiau mewn safle hunanddarpar gydymffurfio â Rheoliadau Dodrefn a Deunyddiau (Diogelwch Tân) 1988.
- Y rheoliadau hyn sy'n gosod y lefelau gwrthsefyll tân ar gyfer dodrefn, deunyddiau a nwyddau eraill sy'n cynnwys clustogwaith.
- Dylai dodrefn sy'n cydymffurfio â'r rheoliad ddangos label parhaol – dylai'r label hwn gael ei ddangos ar ddodrefn newydd a dodrefn ail-law. Dylech bob amser brynu dodrefn a deunyddiau sydd â label parhaol a/neu sicrhau bod y dodrefn yn cydymffurfio â **BS7177**.

Mae mwy o wybodaeth ar gael yma:

<https://www.fira.co.uk/images/FLAM-FAQs-July-2017.pdf>



Cyfyngu ar ledaeniad tân

Yn gyffredinol, os bydd tân yn digwydd, byddwch chi eisieu ei gadw yn yr ystafell lle cychwynnodd mor hir â phosib ac i beidio â lledaenu drwy'r eiddo. Gallai'r deunyddiau a ddefnyddiwyd i adeiladu eich safle, ansawdd y gwaith adeiladu a'i gyflwr, gyfrannu at ba mor gyflym y gallai tân ledaenu, a gallent o bosib effeithio ar y llwybrau dianc y bydd angen i'r preswylwyr eu defnyddio. Bydd tân sy'n cynnau mewn adeilad a adeiladwyd yn bennaf o ddeunyddiau llosgadwy yn lledaenu'n gyflymach na tân lle defnyddiwyd deunyddiau adeiladu sy'n gwrthsefyll tân.

Mae'n dibynnu ar ganfyddiadau eich asesiad risg tân, ond efallai y bydd rhaid amddiffyn y llwybrau dianc rhag tân a mwg drwy uwchraddio adeiladwaith y lloriau, y nenfwd a'r waliau i safon sy'n gwrthsefyll tân. Dylech osgoi cael wal a leinin nenfwd llosgadwy yn eich llwybrau dianc.

Oes angen i mi gael larymau tân awtomatig (Larymau Mwg)?



OES, MAE POB SAFLE SYDD Â LLE CYSGU YN DEBYGOL O FOD ANGEN SYSTEM CANFOD TÂN A RHYBUDDIO.

Yn y safleoedd llety cysgu lleiaf, fel carafanau, podiau gwersylla a glampio, cytiau lloches, pebyll ac yurtiau, gallai system awtomatig i ganfod tân â batri hir-oes dan sêl, sy'n cael ei galw'n system **Gradd F1 o dan BS5839** Rhan 6, fod yn addas.

Os oes angen mwy nag un synhwyrdd, rhaid i'r larymau gysylltu â'i gilydd.

Mewn llety cysgu bach, yn debyg i lety sengl domestig fel tŷ sydd â lle cysgu ar y llawr gwaelod a/neu'r llawr cyntaf, bythynnod, cabanau a fflatiau unigol, bydd rhaid cael system wedi'i gwifro i'r prif gyflenwad yn gysylltiedig â system â batri integredig wrth gefn.

Dylid gosod synwryddion mewn ardaloedd lle gallai tân gynnu. Mae hyn yn cynnwys cyntedd, grisiau, lolfa, ystafell fwyta ac ystafell wely.

Yr enw technegol ar hyn yw system larwm tân **Gradd D1, LD1 o dan BS5839 Rhan 6.**





Cofiwch, gall stêm achosi i larymau mwg seinio drwy ddamwain felly ni ddylid eu gosod mewn ystafell ymolchi na thoiledau.

- Dylai'r gegin, ac unrhyw ystafelloedd eraill (fel ystafell golchi dillad neu iwtiliti) sy'n creu galwadau diangen oherwydd mwg a llwch, gael larymau gwres neu amlsynwryddion yn gysylltiedig â'r system ymhob rhan o'r eiddo.
- Bydd angen i chi hefyd ystyried sut y bydd preswylwyr bregus yn cael gwybod os oes tân; mae systemau arbenigol, yn seiliedig ar unedau dirgrynu a goleuadau'n fflachio, ar gael i hysbysu pobl sydd â nam ar y clyw.



SYLWCH: OS BYDD YR UNED GWYLIAU HUNANDDARPAR WEDI'I LLEOLI MEWN ADEILAD PRESWYL MWY O FAINT, FEL BLOC O FFLATIAU, GALL RHANNAU O'R SYSTEM GYMUNOL I GANFOD TÂN GAEL EU LLEOLI O FEWN YR UNED.

Os nad ydych yn sicr pa system larwm tân i'w gosod, mae croeso i chi gysylltu â'ch Gwasanaeth Tân ac Achub lleol neu ofyn i asesydd risg tân cymwys.

Ffordd o ddianc



RHAID I'R PRESWYLWYR FOD YN GALLU DIANC O'R SAFLE MOR GYFLYM A DIOGEL Â PHOSIB OS BYDD TÂN.

Rhaid i'r preswylwyr fod yn gallu dianc o'r safle mor gyflym a diogel â phosib os bydd tân. Rhaid cadw'r llwybrau dianc a'r allanfeydd yn glir, rhaid iddynt fod ar gael drwy'r amser, ac arwain mor syth â phosib at le diogel.

Mae llwybr dianc yn cynnwys unrhyw ystafelloedd, coridorau, grisiau a manau allanol y mae'n rhaid mynd drwyddynt i ddianc o'r adeilad i le diogel. Ni ddylai neb orfod teithio'n rhy bell i gyrraedd allanfa. Yn y rhan fwyaf o achosion, ni ddylai cyfanswm y pellter yn yr adeilad fod yn fwy nag 18m. Mewn fflatiau â chynllun agored, ni ddylai'r pellter o unrhyw ran o'r uned at ddrws mynedfa'r fflat fod yn fwy na 9m.

Rhaid i'r llwybrau dianc fod yn briodol ar gyfer yr holl breswylwyr posibl, gan ystyried eu hoedran, eu symudedd, a'u hiaith. Mae hyn yn golygu bod dianc drwy ffenest yn annhebygol o fod yn addas ymhob achos. Dylai'r llwybrau allan fod yn addas i bobl anabl, pobl eraill sy'n agored i niwed, neu blant.

Os nad yw hyn yn bosib, dylid hysbysebu'r safle'n glir fel rhywle sydd ddim yn addas i bobl ag anabledau penodol, pobl agored i niwed neu blant.

Mae'r bobl a fydd yn aros yn eich llety yn annhebygol o fod yn gyfarwydd â'r safle. Gallai fod yn ddefnyddiol i roi darlun syml o'r safle sy'n dangos y llwybrau dianc yn y pecyn gwybodaeth i'r gwesteion, ynghyd â gwybodaeth ynglŷn â sut i alw'r gwasanaethau brys a manylion y lleoliad, yn enwedig os nad yw'n hawdd adnabod y lleoliad drwy'r cod post.



Rhowch unrhyw fanylion cyswllt perthnasol eraill os yw hynny'n briodol. Nid yw'n dderbyniol i ddibynnu ar gael y gwasanaeth tân ac achub i ddod i dynnu'r preswylwyr allan.

Allanfeydd

Dylai fod yn hawdd agor unrhyw allanfeydd heb allwedd, fel y drws ffrynt a'r drws cefn; byddai clicied bawd neu clicied nos yn bosib.



Drysau mewnol

Dylai'r drysau fod yn gadarn, nid yn rhai "bocs wyau". Dylent fod yn ffio'n dda yn eu fframiau, bod mewn cyflwr da heb dyllau na difrod. Drwy gadw'r drysau ar gau, yn enwedig yn y nos, gallech helpu i atal tân a mwg rhag lledaenu a helpu'r preswylwyr i ddianc yn ddiogel.

Mae hyn yn arbennig o bwysig os oes risg uwch yn yr ystafelloedd, fel y lolfa neu'r gegin. Mae dyfeisiau sy'n cau eu hunain yn ffordd dda o wneud yn siŵr fod y drysau wedi cau. Rydym yn derbyn y gallant effeithio ar edrychiad y drysau, a gallai 'dyfeisiau cau o fewn y fframiau' fod yn ddewis derbyniol.



SYLWCH: OS YW'R UNED GWYLIAU HUNANDDARPAR YN RHAN O FLOC O FFLATIAU A BOD Y PRIF DDRWS MYNEDFA I'R FFLATIAU YN AGOR I GORIDOR/GRISIAU CYMUNOL, RHAID I'R DRWS FOD YN DDRWS TÂN SY'N CAU EU HUN AC SY'N GWRTHSEFYLL TÂN AM 30 MUNUD O LEIAF (FD30S).

MAE HEFYD YN BOSIB Y BYDD RHAID I DDRYSAU MEWNOL Y FFLAT FOD YN DDRYSAU TÂN ER MWYN HELPU I ATAL MWG RHAG MYND I'R ARDALOEDD CYMUNOL.



Cynllun agored / ystafelloedd mewnol



“YSTAFELL FEWNOL” YW YSTAFELL LLE MAE’R UNIG FFORDD O DDIANC YW DRWY YSTAFELL ARALL (O’R ENW “YSTAFELL GYRRAEDD”).

Mae’r sefyllfa hon yn digwydd gyda chynllun agored. Rhaid ystyried a fyddai tân yn yr ystafell gyrraedd yn gallu rhwystro pobl sydd yn yr ystafell fewnol rhag dianc. Rhaid i breswylwyr beidio â gorfod mynd drwy fwy nag un ystafell gyrraedd er mwyn dianc.

Os yw’r llwybrau cyrraedd o’r ystafell wely yn mynd drwy lolfa cynllun agored neu gegin, lolfa ac ardal fwyta integredig, mae’n debygol y bydd angen mesurau ychwanegol i ganfod tân a mwg yn gynnar er mwyn lleihau’r risgiau yn yr ardaloedd agored hynny.

Dyma rai enghreifftiau:


- gwneud yn siŵr fod offer coginio wedi’u gosod draw oddi wrth y llwybr dianc/ allanfa.
- dyfeisiadau awtomatig ar y cwcer i’w ddiffodd.
- gwresogyddion mwy diogel yn lle tanau agored.
- gwahardd ysmegu, canhwylau a ffrio saim dwfn ar y safle.



Goleuadau argyfwng ar gyfer dianc


Fel arfer, does dim rhaid cael goleuadau argyfwng ar gyfer dianc mewn unedau bach o lety hunanddarpar; mae goleuadau artiffisial confensiynol yn cael eu hystyried yn ddigon fel arfer.

Dylai fod yn hawdd dod o hyd i'r switsys golau.



Fodd bynnag, efallai y bydd eich asesiad risg tân yn ystyried bod angen rhyw fath o olau argyfwng, fel unedau goleuadau argyfwng sefydlog "ar eu pen eu hunain" neu fflachlampiau er mwyn helpu'r preswylwyr i ddianc i le diogel. Meddyliwch a fyddai "goleuadau benthyc", fel goleuadau stryd y tu allan, yn gallu bod o gymorth.

- Gwnewch yn siŵr fod fflachlampiau yn cael eu darparu os oes raid i'r preswylwyr ddianc i ardaloedd sydd heb oleuadau allanol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol mewn bythynnod anghysbell neu leoliadau ar eu pen eu hunain sydd heb oleuadau stryd.
- Dylid darparu gwybodaeth i'r preswylwyr ar ffurf arwyddion neu mewn pecyn gwybodaeth i westeion yn dweud beth yw pwrpas y fflachlampiau, a sut maent y gweithio. Un ateb posib yw fflachlampiau yn y coridorau a/neu'r ystafelloedd gwely, sy'n dod ymlaen yn awtomatig os bydd y cyflenwad trydan yn methu.



Offer diffodd tân



OS BYDD TÂN, DYLLID ANNOG Y PRESWYLWYR I FYND ALLAN O'R SAFLE A GALW 999, OND CYNGHORIR CHI I DDARPARU OFFER SYML A CHLUDADWY I DDIFFODD TÂN FEL Y GALL Y PRESWYLWYR DDELIO Â THANAU BYCHAIN OS YW HYNFY'N BRIODOL.


Dylai eich asesiad risg tân benderfynu beth sydd ei angen; dylid ddarparu blanced dân yn y gegin o leiaf, gyda chyfarwyddiadau clir ar sut i'w defnyddio'n ddiogel.



Systemau awtomatig i lethu tân

Safleoedd sy'n bodoli eisoes:

Gellir gosod systemau lethu tân, fel systemau taenellu dŵr neu niwl dŵr, i amddiffyn y safle rhag tân. Gall y rhain fod yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer cynlluniau cymhleth neu gynlluniau agored.



Gallant fod yn effeithiol i lethu tân a chyfyngu ar dân, fel y gall pobl gael mwy o amser i ddianc i le diogel, yn ogystal â chyfyngu ar y difrod a achosir gan dân.

DYLID CAEL CYNGOR ARBENIGOL OS YDYCH YN YSTYRIED CAEL SYSTEM AWTOMATIG AR GYFER LLETHU TÂN.



Adeiladau newydd ac addasiadau:

RHAID I UNRHYW SAFLEOEDD HUNANDDARPAR A ADEILADWYD YN NEWYDD YNG NGHYMRU GAEL SYSTEM LLETHU TÂN, YN UNOL Â RHEOLIAD 37A O REOLIADAU ADEILADU 2010.



Mae Rheoliad 37A yn gymwys hefyd i safleoedd a gafodd eu haddasu o rai amhreswyl (e.e. ysgubor neu floc stablau) yn llety preswyl - gan gynnwys safleoedd hunanddarpar. Mae addasiad o'r fath yn golygu newid y defnydd yn sylweddol o dan Reoliad 5(h) o'r Rheoliadau Adeiladu, felly mae'n orfodol yng Nghymru i ddarparu system awtomatig i lethu tân.

Profi a Chynnal a Chadw



MAE'N BWYSIG MYND ATI'N RHEOLAIDD I BROFI A CHYNNAL A CHADW'R HOLL FESURAU DIOGELWCH TÂN, A CHOFNODI'R CANLYNIADAU MEWN FFORDD ADDAS.

Sicrhewch i'ch holl systemau diogelwch tân gael eu profi'n rheolaidd a chael eu cynnal a'u cadw'n addas i wneud yn siŵr eu bod yn gweithio'n dda.

Larymau Mwg - dylent gael eu profi cyn i westeion newydd gyrraedd:

- Archwiliwch a oes difrod ac a oes rhywun wedi ymyrryd â nhw. Gwnewch yn siŵr fod posib clywed y larwm ymhob rhan o'r safle. Cofnodwch ganlyniadau'r profion a'r archwiliadau.
- Dylid glanhau larymau tân yn rheolaidd, yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.

Goleuadau Argyfwng:

- Os ydych chi wedi darparu goleuadau argyfwng, gwnewch yn siŵr fod y system yn cael ei phrofi a'i chynnal a'i chadw yn unol â **BS5266-8**.
- Mae hyn yn cynnwys prawf gweithrediad bob mis, a gwasanaeth blynyddol gan berson cymwys. Yn ystod y prawf gweithrediad, gwnewch yn siŵr fod yr unedau'n darparu digon o olau er mwyn i'r gwsteion allu dianc.
- Cyn i westeion newydd gyrraedd, gwiriwch fod yr unedau'n lân a heb ddfrod. Cofnodwch ganlyniadau eich profion a'ch archwiliadau.

- Os ydych chi wedi darparu fflachlampau, gwiriwch y rhain cyn i westeion newydd gyrraedd er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio'n iawn ac yn y lle cywir.

Offer Diffodd Tân – dylid eu harchwilio cyn i westeion newydd gyrraedd:

- Gwnewch yn siŵr fod pob offer diffodd tân yn ei le pwrpasol, a gwiriwch nad oes neb wedi ymyrryd â nhw.
- Cofiwch y bydd pob offer diffodd tân yn cyrraedd diwedd ei oes, ac mae gwybodaeth am hynny wedi'i stampio ar yr eitem fel arfer. Os bydd yr offer wedi dod i ddiwedd ei oes neu wedi'i ddfrodi, gosodwch offer newydd. Cofnodwch ganlyniadau eich profion a'ch archwiliadau.
- Mae cyfarwyddiadau ar ddefnyddio a chynnal a chadw offer yn amrywio yn ôl y gwneuthurwyr; darllenwch ganllawiau'r gwneuthurwyr i gael rhagor o wybodaeth.
- Os gwelwch unrhyw ddiffygion yn ystod eich archwiliadau a phrofion, gwnewch yn siŵr fod camau addas i gywiro'r mater yn cael eu cymryd cyn i breswylwyr gyrraedd.



I'ch helpu i gofnodi'r gwaith profi a chynnal a chadw, gallwch chi lawrlwytho copi am ddim o Lyfr Log ar gyfer Tân oddi unrhyw un o wefannau'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru.



Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

LLYFR LOG



Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

LLYFR LOG



Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru
South Wales
Fire and Rescue Service

LLYFR LOG



Enghraifft o restr wirio cyn i westeion newydd gyrraedd:

Cyn i westeion newydd gyrraedd, gwnewch yn siŵr fod y safle'n ddiogel i aros ynddo:

- Profwch y system canfod tân i wneud yn siŵr ei fod yn gweithio. Cofnodwch y prawf, ac unrhyw gamau a gymerwyd.
- Gwiriwch y goleuadau / fflachlampau argyfwng i wneud yn siŵr eu bod yn gweithio'n iawn. Rhowch fylbiau/batris newydd os oes angen.
- Gwiriwch nad yw'r offer diffodd tân wedi cael ei ddefnyddio, a'i fod yn y lle cywir. Rhowch rai newydd os oes angen.
- Gwiriwch y glicied bawd/ clicied nos/ liferi i sicrhau eu bod yn hawdd i'w defnyddio, a gwiriwch ei bod yn hawdd agor yr allanfeydd.
- Gwiriwch y llwybrau dianc mewnol ac allanol rhag ofn fod risg o lithro, baglu a chwympo. Gwnewch yn siŵr nad oes dim yn rhwystro'r llwybrau dianc.
- Gwiriwch y peiriannau trydan cludadwy i weld a oes golwg o ddifrod a thraul, ayyb. Trwsiwch nhw neu gael rhai newydd os oes angen.
- Ydy'r wybodaeth am ddiogelwch tân, a'r taflenni manylion cyswllt, yn y lle cywir / yn dal yn y pecyn gwybodaeth i westeion?.
- Gwnewch yn siŵr fod yr holl ddrysau'n ffitio yn eu fframiau, eu bod mewn cyflwr da, heb unrhyw dyllau na difrod.
- Gwnewch yn siŵr fod llefydd tân a/neu stofiau llosgi coed yn lân, yn rhydd o barddu neu lwch os oes modd, mewn cyflwr da ac yn gweithio'n ddiogel. Profwch eich larymau Carbon Monocsid.

I gael mwy o gyngor am Ddiogelwch Tân, cysylltwch â'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn eich ardal chi.



nwales-fireservice.org.uk

01745 535 250



tancgc.gov.uk

0370 6060699



decymru-tan.gov.uk

01443 232000

